Mid-Wales Housing Association Ltd
Bryn Aderyn The Bank Newtown
Powys SY16 2AB

Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru Cyf
Bryn Aderyn Y Banc Y Drenewydd
Powys SY16 2AB

Mid-Wales Housing
Tai Canolbarth Cymru

GWEITHDREFNAU POLISI GOSODIADAU

SYSTEM BWYNTIAU

Aelod o Undod
Member of Undod

A Registered Social Landlord L013 • Member of Community Housing Cymru
Registered as a Friendly Society under The Industrial and Provident Societies Act 1965 MS21416R

TEL/FFON: 01686 627476 FAX/FFACS: 01686 623195 EMAIL/EBOST: post@mid-walesha.co.uk www.mid-walesha.co.uk

POLISI GOSODIADAU

Ysgrifennwyd y Polisi hwn i gydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol "Deddf Tai 1996" a "Deddf Digartrefedd 2002" ynghyd â Chod Rheoliadol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymdeithasau Tai yng Nghymru.

Nod y Gymdeithas yw darparu llety ar rent, a gaiff eu rheoli'n dda ar gyfer y rhai sydd fwyaf o angen cartref. Bydd yn sicrhau y caiff y rhai a gaiff eu lletya eu dewis eu deg, a bydd yn anelu i sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion a dewisiadau ymgeiswyr a phobl sy'n trosglwyddo a'r angen i gynyddu cynhwysiant cymdeithasol a hyrwyddo cymunedau sefydlog, o fewn cyfyngiadau adnoddau a deddfwriaeth gyfredol a'r dyfodol. Mae'r Gymdeithas yn gweithredu system bwyntiau i asesu angen tai ymgeiswyr ac amgaeir hynny er gwybodaeth.

Nod Tai Canolbarth Cymru yw darparu cartrefi ar gyfer y rhai sydd yn yr angen mwyaf.

---

1. Pwy all wneud cais am gartref?

- Preswylwyr y Deyrnas Unedig 16 oed a throsodd – yn cynnwys tenantiaid Tai Canolbarth Cymru sy'n dymuno trosglwyddo i annedd arall Tai Canolbarth Cymru.
- Dinasyddion Prydeinig a Dinasyddion Ardal Economaidd Ewropeaidd (gwledydd yr Undeb Ewropeaidd ynghyd â Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein) 16 oed a throsodd a fu â'u preswylfan arferol yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw neu Weriniaeth Iwerddon (Ardal Deithio Gyffredin). Bydd yn rhaid i'r Gymdeithas brofi unrhyw gyfnod o breswyliaeth o lai na 2 flynedd.
- Ffoaduriaid neu bobl eraill y rhoddwyd caniatâd iddynt barhau yn y Deyrnas Unedig.

2. Pwy na fydd yn gymwys am gartref?

- Pobl sy'n dod o dan reolaeth mewnfudo o fewn ystyr Deddf Lloches a Mewnfudo 1996 (c.49) os nad ydynt o ddosbarth a waharddwyd gan reoliadau a wnaed dan Lywodraeth Cynulliad Cymru.
- Pobl sy'n dod o fewn dosbarthiadau eraill o bobl o dramor a waharddwyd gan reoliad Llywodraeth Cynulliad Cymru fel bod yn anghymwys ar gyfer dyrannu annedd iddynt.
- Pobl neu aelod o'u teulu a fu'n euog o *"ymddygiad annerbyniol" – gyda'r ymddygiad hwnnw'n ddigon difrifol i'w gwneud yn anaddas i fod yn denant y Gymdeithas adeg gwneud y cais.

  Dylid nodi os yw pasbort ymgeisydd wedi ei stampio *"No recourse to public funds,"* fod hyn yn cyfeirio yn unig at ddarpariaeth llety Cyngor, ac nad yw o reidrwydd yn rhwystro'r ymgeisydd rhag cael llety Cymdeithas Tai.

  *Diffinnir ymddygiad annerbyniol fel pe bai'r ymgeisydd eisoes yn denant y Gymdeithas ac y byddai'r ymddygiad yn rhoi hawl i'r Gymdeithas i gael Gorchymyn Meddiant llwyr dan Ddeddf Tai 1985 Atodlen 2 Rhan 1 (heblaw sail 8 - annedd a wnaed ar gael pan wneir gwaith atgyweirio). Mae'r rhain yn seiliau ar gyfer meddiant yn seiliedig ar fethiant y tenant i gydymffurfio gyda'i amodau tenantiaeth ef neu hi e.e. ôl-ddyledion rhent neu niwsans.

Caiff ymgeiswyr sy'n euog o *"ymddygiad annerbyniol"* eu gwahardd o'r rhestr aros am gyfnod hyd at 6 mis a byddant yn cael cyfle i adolygu eu cais eto ar ôl y cyfnod hwn. Mater i'r ymgeisydd unigol yw gofyn am adolygiad ar ôl y cyfnod hwn. Bryd hynny ailystyrid amgylchiadau'r ymgeisydd ac unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau a all fod wedi digwydd e.e. ad-dalu unrhyw ôl-ddyledion rhent.

Mewn amgylchiadau eithriadol (e.e. mae rhywun sy'n gyfrifol am ymddygiad annerbyniol wedi gadael yr aelwyd) gall ymgeiswyr a gafodd eu gwahardd am ymddygiad annerbyniol ofyn am adolygu eu cais o fewn cyfnod y gwaharddiad. Rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r Gymdeithas yn uniongyrchol gan nodi'r rhesymau pam y credant y dylai eu gohiriad gael ei adolygu.

Dylid nodi y bydd unrhyw ymgeisydd sy'n disgyn yn ddilynol i'r categorïau uchod ar ôl gwneud eu cais yn peidio bod yn gymwys am gartref.

Medrir llacio'r amod am "ymddygiad annerbyniol" lle, ym marn y Gymdeithas, y byddai caledi meddygol neu gymdeithasol gormodol yn debygol o ddigwydd fel canlyniad i wahardd yr ymgeisydd o'r rhestr aros.

D.S. *Gall rhoi gwybodaeth ffug wir ddatgymhwyso unrhyw ymgeisydd rhag cael ei ystyried ymhellach, a gall unrhyw denantiaeth a roddwyd fel canlyniad i wybodaeth ffug gael ei hadfeddiannu drwy weithredu cyfreithiol drwy'r Llys Sirol.*

3. Cytundebau Gosodiadau Lleol

Mewn rhai ardaloedd, darparwyd tai fforddiadwy yn amodol ar rai cyfyngiadau cynllunio h.y. Cytundebau Adran 106. Yn yr amgylchiadau hyn, dim ond pobl gyda chysylltiad lleol gyda'r ardaloedd y medrwn yn eu cartrefu. Mewn achosion o'r fath, medrir cynnig annedd i ymgeiswyr sydd â llai o angen tai ond sy'n cymhwyso drwy gysylltiad lleol. Cânt eu hystyried yn bennaf yn nhrefn angen cartref ac yn ôl trefn dyddiad y cais.

4. Polisïau Gosodiadau Lleol

Diogelu cymunedau

Medrir cyflwyno Polisi Gosodiadau Lleol er mwyn diogelu cymunedau neilltuol, neu i atal neu wrthdroi amddifadedd cymdeithasol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. I sefydlu Polisi Gosodiadau Lleol bydd y Rheolydd Tai yn rhoi crynodeb o'r problemau sydd angen eu datrys, manylion yr ardal benodol, y cyfnod y bydd y polisi yn weithredol, cynghori'r Awdurdod Lleol i alluogi enwebiadau priodol a dynodi trefniadau enwebu.

Cynlluniau Pentref

Mae trefniadau arbennig yn weithredol ar gyfer anheddau mewn pentrefi i sicrhau ein bod, cyn belled ag y bo modd, yn cartrefu pobl leol, yn unol â Pholisi Cynllun Datblygu Unedol yr Awdurdod Lleol perthnasol. Bydd ymgeisydd sy'n byw neu'n gweithio ar hyn o bryd neu a fu'n byw neu'n gweithio yn flaenorol yn y pentref y mae'n gwneud cais amdano yn derbyn blaenoriaeth dros ymgeisydd sy'n byw yn yr ardal neu ddosbarth, hyd yn oed os oes gan yr ymgeisydd blaenorol nifer is o bwyntiau.

5. Pa fath o annedd a gynigir?

Bydd hyn yn dibynnu ar faint yr aelwyd. Mae'r Gymdeithas yn berchen ar anheddau o wahanol feintiau ym Mhowys a Cheredigion i ddiwallu ystod o anghenion. Byddwn yn ceisio cyfateb maint aelwyd gyda maint delfrydol o annedd a lle bynnag sy'n bosibl yn ceisio cynorthwyo gydag unrhyw ddewisiadau yr hysbysodd ymgeiswyr ni amdanynt ar eu ffurflen gais.

6. Tenantiaethau ar y cyd

Dyfernir tenantiaethau ar y cyd i gyplau, os nad yw'r ddau berson yn y berthynas yn gofyn yn benodol am gynnig y denantiaeth i un ohonynt yn unig. Ni ddyfernir tenantiaethau ar y cyd os oedd un o'r ymgeiswyr yn anghymwys ar gyfer cartref oherwydd ymddygiad afresymol. (Gweler 2. Pwy na fydd yn gymwys am gartref?)

7. Tenantiaid Presennol y Gymdeithas

Mae pwyntiau ar gael i wobrwyo tenantiaid presennol sy'n dymuno trosglwyddo i lety arall. I fod yn gymwys am bwyntiau, mae'n rhaid i denantiaid gyflawni meini prawf neilltuol:

- Bod wedi cadw cyfrif rhent clir am 1 mis neu'n gostwng ôl-ddyledion rhent ar gyfradd a gytunwyd, ac am gyfnod o 6 mis, a
- Heb fod yn destun Gorchymyn Llys yng nghyswllt unrhyw doriad ar amodau tenantiaeth neu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac
- Wedi cadw eu cartref mewn cyflwr da yn unol â'u hoblygiadau dan y Cytundeb Tenantiaeth.

Yn ychwanegol, gall tenant sy'n tanddefnyddio eu cartref presennol ac sy'n dymuno symud i gartref lai neu fwy addas, fod â hawl i gael pwyntiau ychwanegol.

8. Tai Gwarchod

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr 55+ oed yn ein cynlluniau tai gwarchod.
Fodd bynnag, os oes anghenion cefnogaeth, ystyrir ymgeiswyr sydd o dan y trothwy oedran.

9. Beth am ymgeiswyr gydag anabledd?

Ar rai datblygiadau darparwn o leiaf un annedd sy'n addas ar gyfer person gydag anabledd corfforol. Cynigir anheddau o'r fath i'r rhai a fedrai wneud y defnydd gorau o'r cyfleusterau ac nid o reidrwydd i ymgeiswyr sy'n derbyn y pwyntiau uchaf. Gall ymgeiswyr gydag anabledd wneud cais am lety nad yw wedi ei ddarparu'n benodol ar gyfer defnydd i'r anabl. Gall fod modd i ni gael grant i wneud yr annedd yn fwy addas ar gyfer anghenion ymgeisydd.

10. Beth am ymgeiswyr gydag anghenion cymorth?

Gall ymgeiswyr fod eisoes yn derbyn cymorth neu angen peth cefnogaeth i'w helpu i gadw at amodau eu tenantiaeth. Gall hyn fod oherwydd salwch meddwl, dibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol neu resymau eraill. Medrai'r cymorth sydd ei angen amrywio o help gyda chyllid neu ddysgu sgiliau bywyd i help i fyw'n annibynnol. Byddwn yn edrych am sicrwydd fod cefnogaeth ar gael i ymgeisydd ac yn helpu i roi ymgeisydd mewn cysylltiad gydag asiantaethau eraill.

Mae gwybodaeth bellach ar gael yn ein llyfryn "Gwybodaeth Ddefnyddiol".

11. Digartrefedd

Derbynnir enwebiadau gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad digartrefedd. Mae'r Gymdeithas yn cyfeirio ymgeiswyr at Wasanaethau Digartref yr Awdurdod Lleol i gael cyngor pellach.

Bydd y Gymdeithas yn ymdrechu i gynorthwyo ymgeiswyr sy'n ddigartref, ond na chafodd eu hatgyfeirio gan yr Awdurdod Lleol. Bydd angen llythyr gan yr Awdurdod Lleol yn cadarnhau statws digartref.

12. Perchnogaeth Cartref

Ni fydd mwyafrif tenantiaid yn medru prynu eu cartref gan na fydd telerau eu tenantiaeth yn caniatáu iddynt wneud hynny.

Fodd bynnag, os oes gan denant ddiddordeb mewn prynu eu cartref, fe'u cynghorir i gysylltu â'r Gymdeithas i gael gwybodaeth bellach i weld os ydynt yn cymhwyso.

13. Hawl i weld manylion personol

Mae gan bob ymgeisydd hawl i weld y manylion a roddwyd iddynt ac y mae'r Gymdeithas wedi ei chadw ar ei chofnodion cyfrifiadur.

Gall ymgeiswyr ysgrifennu at y Gymdiethas i ofyn am gopi o'r manylion a gedwir ar gyfrifiadur, neu medrant alw yn y swyddfa, os rhoddir hysbysiad o hynny, gan ddod â thystiolaeth o bwy ydynt.

14. Hawl i Adolygiad

Mae gan ymgeiswyr hawl i wneud cais am adolygu penderfyniad am yr agweddau dilynol o gais:

- Cymhwyster
- Ymddygiad annerbyniol
- Unrhyw ffeithiau y mae'r Gymdeithas wedi dibynnu arnynt

Caiff amgylchiadau'r ymgeisydd adeg yr adolygiad eu hystyried, yn neilltuol os ydynt wedi newid ers pan wnaed y penderfyniad gyntaf.

Dylid gwneud ceisiadau am adolygiad yn nodi'r rhesymau o fewn 28 diwrnod o brosesu cais.

Bydd y Rheolydd Tai yn ystyried yr adolygiad os nad oedd yn ymwneud â'r penderfyniad gwreiddiol.
Hysbysir ymgeiswyr am ganlyniad yr adolygiad o fewn 14 diwrnod o dderbyn y cais.

15. Apelio yn erbyn canlyniad Adolygiad

Os yw ymgeisydd yn parhau'n anfodlon gyda'r ffordd y mae'r Gymdeithas wedi dilyn y polisi gosodiadau, yna medrir gwneud cais i'r Cyfarwyddydd cyfrifol am wasanaethau tai i ystyried yr apêl. Rhaid gwneud yr adolygiad o fewn 28 diwrnod o'r hysbysiad am y penderfyniad i adolygu. Hysbysir yr ymgeisydd am y penderfyniad o fewn 14 diwrnod o'i dderbyn.

Gall ymgeiswyr sy'n anfodlon gyda chanlyniad yr apêl gyfeirio'r mater at Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, 1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ.

1. Sut fedrwch chi wneud cais am gartref?

Mae angen i chi lenwi ffurflen gais sydd ar gael ar ein gwefan, neu ein ffonio neu ysgrifennu atom. Medrwch hefyd alw heibio ein swyddfa i gasglu ffurflen. Mae'n bwysig eich bod yn llenwi pob rhan o'r ffurflen sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau. Gofynnwch i ni os gwelwch yn dda os hoffech gael cyngor a help i lenwi'r ffurflen.

2. Beth sy'n digwydd nesaf?

Byddwn yn gadael i chi wybod beth yw canlyniad eich cais o fewn 7 diwrnod o'i dderbyn. Dyfernir pwyntiau i chi yn ôl eich angen am gartref. Amgaeir y ffordd y rhoddir pwyntiau i'ch cais. Ni fedrwn eich derbyn ar ein rhestr aros os nad ydych yn derbyn unrhyw bwyntiau. Fodd bynnag, mae croeso i chi wneud cais arall os yw eich amgylchiadau'n newid yn y dyfodol.

3. Pa wybodaeth fyddwch yn ei chael?

Byddwn yn anfon y dilynol atoch:

- Cadarnhau faint o bwyntiau a gafodd eich cais
- Maint a lleoliad yr annedd y cawsoch eich derbyn ar ei chyfer.
- Rhestr o leoedd a ddaeth yn wag dros y 12 mis diwethaf.
- Sut i apelio yn erbyn yr asesiad, os ydych yn anghytuno ag ef.

4. Pa fath o annedd a gaiff ei chynnig?

Mae'r siart islaw yn dangos maint delfrydol yr annedd y medrwn eu cynnig i aelwyd:

Maint yr aelwyd	Maint yr annedd
Person sengl/cwpl	Fflat un llofft Fflat dwy lofft Byngalo (lle'n gymwys)
Aelwyd gydag un plentyn	Tŷ dwy lofft Fflat dwy lofft ar y llawr daear
Aelwyd gyda dau blentyn un ohonynt dan 8 mlwydd oed	Tŷ dwy lofft Tŷ tair llofft
Aelwyd gyda dau blentyn dros 8 mlwydd oed	Tŷ tair llofft
Aelwyd gyda thri o blant, dau ohonynt dan 8 mlwydd oed	Tŷ tair llofft
Aelwyd gyda thri o blant, dau ohonynt dros 8 oed	Tŷ tair llofft Tŷ pedair llofft
Unedau teuluol mwy	Tŷ pedair neu bum llofft

5. Sut y gwneir dyraniadau?

Pan ddaw annedd yn wag, lle'n bosibl, mae Cydlynydd Tai yn ymweld yn eu cartrefi â'r ymgeiswyr hynny sydd â'r nifer uchaf o bwyntiau. Mae hyn ar gyfer gwneud yn sicr fod yr wybodaeth a roddir ar y ffurflen gais yn gywir, a'ch bod wedi derbyn y nifer gywir o bwyntiau.

Bydd y Cydlynydd Tai a ymwelodd yn asesu ceisiadau'r rhai a ymwelwyd yn eu cartrefi ac fel arfer cynigir yr annedd wag i'r ymgeisydd a dderbyniodd y nifer uchaf o bwyntiau. Mae galw uchel iawn mewn rhai ardaloedd, felly bydd llawer o gystadleuaeth rhwng pobl gyda phwyntiau uchel, ond mewn rhai ardaloedd lle mae'r galw'n isel efallai y medrwch gael cartref gyda llai o bwyntiau.

6. A fyddwch yn gadael i mi wybod os bûm yn llwyddiannus?

Byddwn yn gadael i chi wybod cyn gynted ag sydd modd ar ôl i ni ymweld â chi os medrwn gynnig yr annedd wag i chi ai peidio.

Byddwn yn caniatáu dau gynnig o lety yn yr ardal(oedd) y gwnaethoch eu dewis ac y credwn sy'n addas ar gyfer eich anghenion os nad oes gennych resymau da iawn am wrthod ein cynigion . e.e. salwch, bod mewn ysbyty, newid yn amgylchiadau'r teulu. Os ydych yn gwrthod ein cynigion heb resymau da, byddwn wedyn yn dileu eich cais o'r rhestr aros. Ar ôl 12 mis medrwch ail-ymgeisio i fynd ar y rhestr aros. Fodd bynnag, os yw'ch amgylchiadau'n newid o fewn y cyfnod o 12 mis gall y Gymdeithas ailystyried eich cais cyn hynny.

7. Pa mor hir fydd yn rhaid i mi aros am lety?

Mae hyn yn dibynnu ar nifer yr anheddau a ddaw'n wag a'r nifer o bwyntiau a roddir i chi. Yn anffodus, ni fedrwn gartrefu nifer fawr o ymgeiswyr oherwydd nad oes gennym ddigon o anheddau gwag.

Aiff o leiaf 50% o'n anheddau gwag i enwebiadau awdurdod lleol a medrwch felly ddymuno cysylltu â'r awdurdod lleol i weld os medrwch wneud cais am gartref a chael eich enwebu i'r Gymdeithas.

Amgaeir rhestr o anheddau a ddaeth yn wag dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn dangos y nifer o bwyntiau a ddyrannwyd yn eich ardal. Medrwch ostwng amserau aros drwy ymestyn eich dewis o ardaloedd a'r math o annedd y byddech yn barod i fyw ynddi.

Cysylltwn ag ymgeiswyr ar ein rhestr aros bob 6 mis i sicrhau fod ein rhestr yn gyfoes a bod ymgeiswyr yn dal i ddymuno cael eu hystyried ar gyfer llety.

POLISI GOSODIADAU – SYSTEM PWYNTIAU

Dyfernir pwyntiau yn ôl eich amgylchiadau a gallant newid pan ddilysir y dystiolaeth a roddwyd a/neu drwy ymweliad cartref gan y Cydlynydd Tai.

Dyfernir yr holl gategorïau pwyntiau perthnasol i ymgeiswyr fel sy'n dilyn.

40 pwynt

Categorïau

Dalier sylw: Ym MHOB achos o gategori digartrefedd, bydd gwasanaeth ataliaeth a digartrefedd yr Awdurdod Lleol yn asesu cymhwyster. Gofynnir i chi felly gysylltu â Gwasanaethau Digartrefedd yr Awdurdod Lleol i gael mwy o gyngor.

Digartref – Digartref cymwys, anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth.

Ymgeiswyr sy'n gadael ysbyty/sefydliad arall

- Lle mae'r asiantaethau cysylltiedig yn cytuno bod llety wedi'i setlo yn elfen allweddol mewn cefnogaeth gymunedol gyda phecyn gofal addas ar waith.

Meddygol – blaenoriaeth uchel

- Byddai cyflwr meddygol ymgeisydd/aelod o aelwyd ymgeisydd yn manteisio'n sylweddol o ailgartrefu cynnar mewn llety arall addas fel mater o flaenoriaeth.

Gorlenwi

- Nid yw cartref ymgeisydd yn ddigon mawr i ateb gofynion yr ymgeisydd/ion ac mae angen dau neu fwy o leoedd gwely.

Tanddefnyddio

- Gan ddau neu fwy o leoedd gwely (tenantiaid Tai Canolbarth Cymru yn unig)

Diffyg 4 neu fwy o'r cyfleusterau dilynol:

- ☐ Cyflenwad dŵr annigonol/diffyg
- ☐ Cyflenwad dŵr poeth
- ☐ Toiled tu mewn
- ☐ Sinc neu fasn llaw ymolchi
- ☐ Bath neu gawod
- ☐ Cyflenwad trydan
- ☐ Cyfleusterau coginio
- ☐ Gwresogi
- ☐ Diffyg mynediad i'r ardd i blant (dim ond os yw'r plentyn dan 8 y dyfernir pwyntiau)

Anheddau peryglus/cyflwr gwael/anaddas

- Anheddau sy'n achosi risg anaf i iechyd a diogelwch preswylydd.

Cynghorir ymgeiswyr i gysylltu ag Ymgynghorydd Opsiynau Tai/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yr Awdurdod Lleol

20 pwynt

Pobl ddigartref heb fod â blaenoriaeth

Meddygol - blaenoriaeth ganolig

- Cyflwr meddygol ymgeisydd/aelod o aelwyd yr ymgeisydd yn cael budd sylweddol o ailgartrefu mewn llety addas

Llety arbennig

a) Gofynnol

- Lle mae'r ymgeisydd neu aelod o'r aelwyd angen llety arbennig, megis llety a adeiladwyd yn bwrpasol neu a addaswyd yn arbennig ar gyfer yr anabl.

b) Dim angen mwyach

- Lle nad yw pobl sydd angen cyfleusterau o'r fath neu bobl ag anabledd corfforol mwyach yn byw mewn llety arbennig megis llety a adeiladwyd yn bwrpasol neu a addaswyd yn arbennig ar gyfer yr henoed neu bobl ag anabledd corfforol, neu nad yw mwyach ei angen gan y person.

Gorlenwi

- Nid yw cartref yr ymgeisydd yn ddigon mawr i ddiwallu anghenion yr ymgeisydd ac mae angen un neu fwy ofod gwely arall.

Tanddefnyddio

- Tenantiaid Tai Canolbarth Cymru gan un gofod gwely. Rhai heb fod yn denantiaid y Gymdeithas gan unrhyw nifer o ofodau gwely.

Diffyg 2 neu 3 o'r cyfleusterau dilynol:

☐	Cyflenwad dŵr annigonol/diffyg	☐	Bath neu gawod
☐	Cyflenwad dŵr poeth	☐	Cyflenwad trydan
☐	Toiled tu mewn	☐	Cyfleusterau coginio
☐	Sinc neu fasn llaw ymolchi	☐	Gwresogi

☐ Diffyg mynediad i'r ardd i blant (dim ond os yw'r plentyn dan 8 y dyfernir pwyntiau)

Rhoi/derbyn cefnogaeth

Lle mae angen i'r ymgeisydd symud:

- Er mwyn hwyluso rhoi neu dderbyn cefnogaeth hanfodol.
- Er mwyn diwallu anghenion aelod corfforol anabl o aelwyd yr ymgeisydd
- Lle mae'r ymgeisydd neu aelod o aelwyd yr ymgeisydd wedi cofrestru i ddarparu gofal maeth neu seibiant.

Anawsterau Teithio

- Lle mae teithiau hanfodol yn amhosibl oherwydd diffyg cludiant addas neu na fedrir ond eu gwneud ar gost sylweddol neu ar risg iechyd yr ymgeisydd.

(Dim ond pan mae'r ymgeiswyr yn wynebu teithiau hanfodol ac anodd yng nghyswllt cyflogaeth, ysgol i'w plant, rhesymau meddygol neu gymdeithasol y dyfernir y pwyntiau hyn. Ni ddyfernir pwyntiau lle mae'r anawsterau'n codi oherwydd dewis personol yr ymgeisydd).

Tenantiaid Presennol Tai Canolbarth Cymru

Rhaid i denantiaid gyflawni meini prawf neilltuol:

- Cadw cyfrif rhent clir am 1 mis neu'n gostwng ôl-ddyledion rhent ar gyfradd a gytunwyd, ac am gyfnod o 6 mis, a
- Heb fod yn destun Gorchymyn Llys yng nghyswllt torri unrhyw amod tenantiaeth neu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac
- Wedi cadw eu cartref mewn cyflwr da yn unol â'u hoblygiadau dan y Cytundeb Tenantiaeth.

Unwaith y dyfarnwyd y pwyntiau uchod, rhaid i denantiaid barhau i gydymffurfio gyda'r amodau uchod. Bydd methiant i wneud hynny yn arwain at i'r pwyntiau gael eu tynnu.

10 pwynt

Meddygol – blaenoriaeth isel

- Byddai cyflwr meddygol yr ymgeisydd neu aelod o aelwyd yr ymgeisydd yn cael budd o ailgartrefu mewn llety addas.

Plant uwchben y llawr daear

- Aelwydydd i gynnwys menywod beichiog a/neu blant dan 8 oed.

Cyfleusterau a gaiff eu rhannu

- Yn cynnwys ymgeiswyr sy'n dal i fyw adref

Diffyg un o'r cyfleusterau isod:

- ☐ Cyflenwad dŵr annigonol/diffyg
- ☐ Cyflenwad dŵr poeth
- ☐ Toiled tu mewn
- ☐ Sinc neu fasn llaw ymolchi
- ☐ Bath neu gawod
- ☐ Cyflenwad trydan
- ☐ Cyfleusterau coginio
- ☐ Gwresogi
- ☐ Diffyg mynediad i'r ardd i blant (dim ond os yw'r plentyn dan 8 y dyfernir pwyntiau)

Gwahanu teulu oherwydd diffyg llety addas

- Teuluoedd sy'n methu byw gyda'i gilydd oherwydd maint a math y llety sydd ar gael.

Cysylltiad Lleol - ymgeiswyr

- Sydd wedi byw neu gael eu cyflogi'n bennaf yn y gymuned am gyfnod o 12 mis o leiaf adeg y cais NEU
- Sydd wedi byw'n flaenorol yn y gymuned am gyfnod o 3 blynedd o leiaf ac sy'n dymuno dal i fyw yno